

REES, EBENEZER (1848 - 1908), argraffydd a chyhoeddwr

Enw: Ebenezer Rees
Dyddiad geni: 1848
Dyddiad marw: 1908
Priod: Jane Rees (née James)
Plentyn: David James Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd a chyhoeddwr
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Huw Walters

Ganwyd yn Sirhywi, Mynwy, yn 1848. Gadawyd ef yn amddifad ac fe'i magwyd gan berthnasau i'w fam - David Clee a'i wraig yng Nghwm-twrch. Ni chafodd fawr o ysgol a dechreuodd weithio yn un o lofeydd yr ardal pan oedd yn saith oed. Gadawodd Gwm-twrch yn ddeunaw oed, a bu'n gweithio mewn glofeydd yn Aberdâr ac Aberpennar, ond dychwelodd i ardal Ystalyfera yn 1868 pan briododd â Jane, merch Dafydd a Rachel James (bu hi farw 18 Medi 1916). Gwelwyd twf mewn undebaeth lafur yng nghymoedd Morgannwg yn ystod y cyfnod hwn a bu Ebenezer Rees yn flaenllaw gyda'r mudiad ym mlaenau cwm Tawe. Fe'i diswyddwyd ac erlidwyd ef oherwydd ei ddaliadau, ac ymfudodd i Carbondale, Pennsylvania, yn 1869. Dychwelodd i Gymru yn 1872, bu'n cadw siop lyfrau am gyfnod ac yn 1877 agorodd swyddfa argraffu yn Ystalyfera. Sefydlodd bapur newydd wythnosol, *Y Gwladwr Cymreig*, yn 1885. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf 22 Ionawr ond daeth i ben ar 24 Medi yr un flwyddyn. Bu [D. Onllwyn Brace](#), Ystalyfera, J. Dyfrig Owen, Glan-twrch a J. T. Morgan ('Thalamus') yn olygyddion iddo yn eu tro. Yr oedd gan Ebenezer Rees ddiddordeb mawr mewn materion cymdeithasol a bu'n flaenllaw gyda'r mudiad llafur yng nghwm Tawe ar droad y ganrif. Yr oedd hefyd yn gyfarwydd ag arweinwyr sosialaidd y dydd megis Keir Hardie [R. J. Derfel](#) a John Hodge. Yn ei swyddfa ef y cyhoeddwyd ac yr argraffwyd *Cwrs y Byd'* i wyntyllu cymdeithas yn ei wahanol agweddau 'o Ionawr 1891 hyd 1895. Ymhlith cylchgronau eraill a gyhoeddwyd ganddo gellir nodi *Yr Oes Newydd* (1886), a'r *Cenadwr* (1894-1897), sef dau o gyhoeddiadau'r Swedenborgiaid yng Nghymru. Bu hefyd yn argraffu'r *Celt* am gyfnod. Ond odid mai ei gyfraniad pwysicaf oedd sefydlu *Llais Llafur* (*South Wales Voice* wedyn), fel papur newydd wythnosol i wasanaethu ardaloedd diwydiannol gorllewin Morgannwg a dwyrain yr hen Sir Gaerfyrddin ar 22 Ionawr 1898. Bu'r newyddiadur hwn yn fodd i hyrwyddo'r mudiad Llafur yn yr ardaloedd hyn, ac ymddangosodd y rhifyn olaf ar 2 Rhagfyr 1971. Cyhoeddodd ac argraffodd Ebenezer Rees ddegau lawer o faledi a llyfyrnau, y mwyafrif ohonynt o waith mân feirdd a llenorion cymoedd Tawe ac Aman. Bu farw yn ei gartref yn Ystalyfera 30 Medi 1908 a chladdwyd ef ym mynwent Beulah, Cwm-twrch.

Awdur

Dr Huw Walters

Ffynonellau

Llais Llafur, 10 Hydref 1908

Llenyddiaeth fy Ngwlad (1893), 41, 175

South Wales Voice, 12 Awst. 1965

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732915](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

